Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Pencae**
**Ffordd Graiglwyd**
**Penmaenmawr**
**Conwy**
**LL34 6YG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Pencae

Lleolir Ysgol Pencae ym Mhenmaenmawr yn Sir Conwy. Mae'n ysgol wirfoddol reoledig yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ysgol yn y broses o newid o fod yn ysgol ddwy ffrwd i ysgol benodedig Gymraeg a fydd yn weithredol ym Medi 2018. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a chyfrwng yr addysgu a'r dysgu hyd at flwyddyn chwech lle addysgir un dosbarth yn ddwyieithog. Ar hyn o bryd, mae 161 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 12 disgybl meithrin sy'n mynychu bob prynhawn. Addysgir y disgyblion mewn 6 dosbarth oedran cymysg ac un dosbarth un oedran. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae un ganolfan adnoddau ran-amser i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi ei sefydlu yn yr ysgol.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 20% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn agos i'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod 40% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010 ac mae'r pennaeth yn ei swydd ers 1998.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r pennaeth a’r uwch dîm rheoli yn darparu arweiniad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn sydd wedi ei seilio ar arwain yr ysgol i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg ac i godi safonau. Trwy ddefnyddio ystod o weithgareddau arfarnu addas, mae gan arweinwyr wybodaeth briodol am safonau a’r addysgu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn ac mae’n cael effaith bositif ar agweddau’r disgyblion hyn tuag at eu dysgu. Mae datblygu lles disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol ac mae strategaethau cadarn ar waith i sicrhau hyn. Mae ymyrraeth effeithiol iawn ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion penodol. Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau bwrpasol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae system gynhwysfawr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu her briodol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu a'u datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac uchelgeisiol

A2 Cryfhau prosesau hunanarfarnu er mwyn adnabod safonau disgyblion yn well

A3 Gwella adborth i ddisgyblion er mwyn iddynt wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A4 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r meithrin, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir o blant yr oedran hwn. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn briodol ar draws ystod o feysydd dysgu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o ddisgyblion yn dda. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn caffael y Gymraeg yn fuan. Ar draws y cyfnod, mae llawer yn gwrando'n astud. Maent yn trafod eu gwaith gyda brwdfrydedd, gan ddefnyddio cystrawen sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, er enghraifft wrth ddisgrifio'r falwoden fel rhan o'u gwaith thema ar drychfilod. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Mae ychydig iawn, sydd yn fwy abl, yn trafod cynnwys eu llyfrau yn hyderus gan gyfeirio at agweddau penodol o'r testun. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn datblygu eu syniadau'n glir mewn trafodaethau dosbarth wrth drafod a chymharu teganau heddiw ac yng nghyfnod Oes Fictoria. Ar frig yr ysgol, mae safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y ddwy iaith yn gadarn. Mae llawer yn darllen yn briodol yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o'r testun. Maent yn cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddarllen amserlen maes awyr wrth gynllunio taith i'r Great Barrier Reef.

Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol. Maent yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n briodol wrth ysgrifennu portread byr o fôr leidr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau'n hyderus yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio cystrawen gadarn ac atalnodi cywir. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu bywgraffiad o gymeriad o'r 60au a llythyr i fynegi barn am dwristiaeth yn Llanberis. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ysgrifennu i'r un safon ar draws ystod o bynciau yn gyson. Mae gorddefnydd o daflenni parod yn cyfyngu ar ddisgyblion rhag ysgrifennu'n rhydd ac ymestynnol yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae agweddau disgyblion Blwyddyn 6 yn ffrwd y dysgwyr tuag at ddysgu Cymraeg yn gadarnhaol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg. Mae'r mwyafrif yn dangos hyder i drafod yn y Gymraeg ac yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd gan newid yn rhwydd o un iaith i'r llall. Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n briodol ac mae llawer yn dangos dealltwriaeth addas o'r testun. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio berfau, ymadroddion a phatrymau syml yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft mewn llythyr gan ifaciwi fel rhan o'u gwaith hanes.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a thrin data. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn effeithiol a'i chyflwyno ar ffurf graffiau amrywiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn rheolaidd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo elw a cholled a wneir wrth werthu cacennau ar ddiwrnod masnach deg.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio medrau TGCh yn hyderus ar draws y cwricwlwm ac yn eu defnyddio i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o rifedd a'u defnydd o lythrennedd. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau'n annibynnol, er enghraifft wrth greu animeiddiad o storïau adnabyddus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwneud defnydd effeithiol o apiau amrywiol ac yn cynhyrchu ystod o gyflwyniadau digidol yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu taenlenni a chronfeydd data yn llwyddiannus mewn agweddau o'r cwricwlwm, er enghraifft taenlen i gynllunio parti diwedd blwyddyn, a bas data am drychfilod a phencampwyr.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr adeilad. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy y dylent droi os byddant yn poeni. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn canolbwyntio am gyfnodau penodedig. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol i gof yn hyderus ac yn ymhelaethu'n dda wrth ymateb i amrywiaeth o gwestiynau gan athrawon. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau a grwpiau, ac fel rhan o ddosbarth cyfan, mewn ystod o weithgareddau. Maent yn cyfrannu at themâu'r dosbarth yn bwrpasol. Fodd bynnag, cyfyng yw rôl y disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol o fewn y dosbarth.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn creu pamffledi a fideos i godi eu hymwybyddiaeth am e-ddiogelwch. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth addas o sut dylent gadw'n iach, pwysigrwydd diet cytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae cynrychiolaeth briodol o ddisgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ymgymryd ag ystod bwrpasol o gyfrifoldebau yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r grŵp siarter iaith yn cyfrannu'n effeithiol i benderfyniadau'r ysgol, er enghraifft y cyngor eco sydd wedi creu gardd mewn maes carafanau gerllaw.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus trwy ymweliadau gan elusennau gwahanol sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o rai llai ffodus na nhw.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda, ac yn ffurfio perthynas waith gynhyrchiol â'r disgyblion. Maent yn fodelau iaith cadarn ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau dosbarth. Maent yn adnabod eu

disgyblion yn dda, sy’n eu galluogi i roi cefnogaeth bwrpasol i unigolion a grwpiau penodol. Fodd bynnag, mae'r gorarwain gan oedolion yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol. Ar adegau, mae diffyg her mewn gweithgareddau yn rhwystro disgyblion rhag cyflawni hyd eithaf eu gallu. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol.

Mae athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr ar lafar er mwyn cynorthwyo’r disgyblion i gyflawni yn ystod gwersi. Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson. Mewn sylwadau ysgrifenedig, mae athrawon yn canmol cyflawniad gwaith disgyblion yn gyson, ond anghyson yw’r sylwadau sy'n galluogi disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn defnyddio adborth ysgrifenedig fel mater o drefn i wella'u gwaith yn ddigon effeithiol. Yn yr adnodd dysgu ychwanegol, mae athrawon yn rhoi cyfle buddiol i ddisgyblion drafod yr hyn maent wedi ei ddysgu. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio’n effeithiol i gynllunio’r cam nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu cyrhaeddiad blaenorol.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau a phrofiadau dysgu diddorol sy’n ennyn brwdfrydedd ymysg y disgyblion. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith ac, ar y cyfan, yn datblygu medrau disgyblion yn briodol. Defnyddir ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn bwrpasol i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Mae cynlluniau gwaith cyfnod allweddol 2 yn rhoi sylw priodol i holl agweddau’r cwricwlwm ac fe gyfoethogi’r ddarpariaeth yn effeithiol trwy ymweliadau addysgol diddorol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r dimensiwn Cymreig wedi ei gwreiddio’n gadarn yng nghynlluniau’r ysgol. Caiff hyn ei ddatblygu’n llwyddiannus trwy ymweliadau niferus o fewn eu milltir sgwâr ac yn ehangach, er enghraifft ymweliad ag amgueddfa Penmaenmawr wrth astudio Oes Fictoria. Mae hyn yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru a’u hardal leol yn dda.

Mae’r fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi eu hymgorffori’n glir yng nghynlluniau gwaith yr ysgol. Mae’r athrawon yn creu cynlluniau pwrpasol sy’n nodi cyfleoedd i ddatblygu’r medrau ar draws y cwricwlwm. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae’r athrawon wedi ymgorffori disgwyliadau’r fframwaith cymhwysedd digidol yn briodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau TGCh rhan fwyaf y disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn gynhwysfawr. Fe wneir defnydd effeithiol iawn o wasanaeth ymgynnwys cymdeithasol yr awdurdod i gefnogi gweithdrefnau cadarn yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cymorth pwrpasol i gefnogi eu hanghenion penodol. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol ag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion, er enghraifft therapyddion iaith a lleferydd a therapyddion galwedigaethol.

Mae gan yr ysgol systemau trwyadl ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn casglu gwybodaeth asesu’n rheolaidd ac yn defnyddio canfyddiadau’r asesiadau’n llwyddiannus i ddarparu cefnogaeth bwrpasol sy’n ymateb i anghenion y disgyblion. Mae arweinwyr yn dadansoddi’r wybodaeth yn drylwyr i fonitro cynnydd grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae’r cynlluniau addysgol unigol yn cynnwys targedau clir a meintiol ac mae athrawon a chymorthyddion yn eu gweithredu’n bwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae disgyblion a rhieni yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy’n mynychu’r adnodd dysgu ychwanegol yn gadarn. Mae athrawon yn creu awyrgylch hapus, gofalgar a chynhwysol sy’n rhoi pwyslais clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a lles y disgyblion. Mae’r gefnogaeth yn cynorthwyo’r disgyblion i ymgysylltu’n dda â’u dysgu ac yn cyfrannu’n effeithiol at wella medrau’r disgyblion. Mae gan yr uned drefn glir i asesu cyraeddiadau’r disgyblion, ac i fesur eu cynnydd dros amser. Mae’r targedau, a gwelliant y disgyblion yn erbyn y targedau, yn cael eu gwerthuso yn rheolaidd bob tymor.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod disgyblion o wahanol grwpiau yn ymgymryd â chyfrifoldebau gan chwarae rhan addas yng nghymuned yr ysgol ac i ddylanwadu ar elfennau o waith yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae cwricwlwm yr ardaloedd chwarae a’r gwersi ymarfer corff yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd gweithgareddau corfforol.

Trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol a chynlluniau gwaith yr ysgol, mae’r ysgol yn datblygu dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o feysydd moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion a goddefgarwch yn dda.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Gyda’i gilydd, mae’r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a’r llywodraethwyr yn darparu arweinyddiaeth gadarn ar gyfer datblygiad yr ysgol ynghyd â rheoli’r adnodd dysgu ychwanegol yn briodol. Mae ganddynt weledigaeth sy'n seiliedig ar arwyddair yr ysgol, sef ‘gyda’n gilydd gwnawn lwyddo’. Mae'r arweinwyr yn llwyddiannus wrth osod cyfeiriad strategol clir i’r ysgol, er enghraifft wrth arwain yr ysgol i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, ac wrth ymateb i flaenoriaethau blynyddol oddi fewn y cynllun datblygu ysgol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y ddarpariaeth, deilliannau a lles disgyblion. O ganlyniad, mae gan staff adnabyddiaeth dda o gyflawniad disgyblion.

Yn gyffredinol, mae prosesau hunanarfarnu’r ysgol yn galluogi arweinwyr i adnabod llawer o’r prif gryfderau a’r meysydd i’w gwella. Mae’n cynnwys ystyried barn rhanddeiliaid ynghyd â chasglu tystiolaeth eang a synhwyrol. Mae’r arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion er mwyn casglu tystiolaeth uniongyrchol, ddefnyddiol. Mae’r adroddiadau monitro yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn y ddarpariaeth yn briodol ac yn amlygu camau i’w cymryd er mwyn gwella. Fodd bynnag, nid yw’r mwyafrif yn adnabod safonau disgyblion yn ddigon miniog. O ganlyniad, mae ychydig o faterion, fel ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion, a’u gallu i ddefnyddio adborth marcio i wella eu gwaith, nad ydynt yn cael eu hamlygu’n ddigon amlwg.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hunanarfarnu yn addas er mwyn creu blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.  Mae'r cynllun yn cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau synhwyrol, sy'n canolbwyntio'n dda ar wella safonau disgyblion ymhellach.

Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn gosod amcanion pwrpasol ar gyfer datblygu medrau athrawon ymhellach sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu.  Mae'r staff yr uned yn cyfarfod â staff unedau eraill i gymharu strategaethau effeithiol ac arferion da, er enghraifft drwy adnabod effeithiolrwydd adnoddau penodol i ddisgyblion unedau.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant.  Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn cyflawni cystal â'u cyfoedion gan amlaf.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn ogystal â chynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella.  Maent yn derbyn gwybodaeth fuddiol gan y pennaeth am fywyd a gwaith yr ysgol sy'n atgyfnerthu hyn yn dda.  Mae aelodau is-bwyllgorau yn cyfrannu'n briodol tuag at arwain cyfeiriad strategol yr ysgol trwy weithgareddau monitro rheolaidd.  Er enghraifft, maent yn ymgymryd ag ymweliadau pwrpasol i graffu ar lyfrau, cynnal teithiau dysgu a siarad â disgyblion a staff.  Maent yn cyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018